

Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Environment and Sustainable Development

Prif Swyddogion Cynllunio
Awdurdodau Unedol Cymru
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf/Our Ref: WG15881
29 Mehefin 2012

Annwyl Gyfeillion

NEWIDIADAU I'R SYSTEM CYFARWYDDIADAU A CHYLCHLYTHYR 07/12 - CYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (HYSBYSU) (CYMRU) 2012

1. Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am ddiwygiadau sydd ar ddod i'r system bresennol o gyfarwyddiadau sy'n gofyn am gyfeirio rhai ceisiadau cynllunio at Weinidogion Cymru, i ystyried eu galw i mewn, cyn y gall caniatâd gael ei roi.
2. Bydd cyfarwyddyd newydd - Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012 yn berthnasol i unrhyw gais am ganiatâd cynllunio a gofrestrir fel cais dilys ar 30 Gorffennaf 2012 neu ar ôl hynny. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn rhan o Gylchlythyr 07/12 sydd wedi'i ddarparu i egluro'r gofynion newydd. Amgaeir copi er gwybodaeth i chi.
3. Daw'r newidiadau hyn i rym yn sgil ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y cyfarwyddiadau presennol a'u nod yw symleiddio'r system, gan ei gwneud hi'n bosibl i awdurdodau cynllunio lleol ymdrin â rhagor o achosion. Bydd hyn yn gwella ansawdd y broses rheoli datblygu ac yn ei gwneud yn gyflymach.

Cylchlythyr 07/12 - Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012

4. Golyga'r cyfarwyddyd newydd bod rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw gais 'datblygiad i'w hysbysu' nad yw'n cynnig ei wrthod. Gweinidogion Cymru fydd yn barnu a ddylai'r cais gael ei alw i mewn. Caiff y mathau o 'ddatblygiadau i'w hysbysu' eu pennu a'u diffinio yn y cyfarwyddyd.
5. Mae'r cyfarwyddyd yn cynnwys rhestr o wybodaeth y mae gofyn ei hanfon at Weinidogion Cymru ac mae'n ei gwneud hi'n bosibl i'r wybodaeth hon gael ei hanfon yn electronig. Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol aros am gyfnod o 21 diwrnod o ddyddiad derbyn yr wybodaeth benodedig cyn rhoi caniatâd cynllunio.
6. Bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu awdurdodau cynllunio lleol yn ysgrifenedig am ddyddiad derbyn yr wybodaeth benodedig a dechrau'r cyfnod o 21 diwrnod. Gall awdurdodau cynllunio lleol, fodd bynnag, symud ymlaen i benderfynu ar y cais cyn diwedd y cyfnod o 21 diwrnod os bydd Gweinidogion Cymru yn eu hysbysu yn ysgrifenedig naill ai nad ydynt yn bwriadu cyhoeddi cyfarwyddyd dan adran 77 o

Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, neu nad ydynt yn ystyried y datblygiad fel 'datblygiad i'w hysbysu'.

7. Bydd y cylchlythyr a'r cyfarwyddyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ar: <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/circulars/welshgovcirculares/?lang=cy>

Diddymu Cyfarwyddyd Presennol yng Nghylchlythyr 39/92 a Chylchlythyr 61/93

8. Bydd cyfarwyddyd yn y ddau gylchlythyr cyfredol hefyd yn cael eu diddymu:

(a) Cylchlythyr 39/92: Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu ac Ymgynghori) 1992.

Ni fydd gofyn bellach i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio 'ceisiadau gwyro' at Weinidogion Cymru, nac anfon copi o'r penderfyniad atynt, lle bo caniatâd cynllunio'n cael ei roi i geisiadau o'r fath.

(b) Cylchlythyr 61/93: Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Siopa) (Cymru a Lloegr) (Rhif 2) 1993.

Ni fydd gofyn bellach i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio ceisiadau sy'n cynnwys darparu gofod siopa, fel sy'n cael ei nodi yn y cyfarwyddyd.

9. Bydd y cyfarwyddiadau hyn fodd bynnag yn parhau i fod yn berthnasol i unrhyw gais dilys am ganiatâd cynllunio yn ymwneud â thir yng Nghymru cyn 30 Gorffennaf 2012.

Rhagor o wybodaeth

10. Nid yw'r cyfarwyddyd newydd yn cynnig unrhyw newidiadau i bolisi na meini prawf cyfredol Llywodraeth Cymru ar 'alw i mewn', sydd i'w gweld yn y daflen 'Galw Ceisiadau Cynllunio i Mewn' -

<http://wales.gov.uk/topics/planning/developcontrol/planningcasework/?lang=cy>

11. Os oes angen esboniad pellach am y newidiadau hyn, cysylltwch â'r Is-adran gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost yr Is-adran Gynllunio –

Planning.Division@Wales.gsi.gov.uk.

Yn gywir



Rosemary Thomas

Prif Gynllunydd

Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Gynllunio

Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Llywodraeth Cymru